

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams, M.R Wilkinson a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J.. Johnson.

C84 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i gofnodi trwy'r rhyngwrdd a chaiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwylio yn y dyfodol.

Gofynnodd a fyddai'r holl gyfranogwyr yn 'tawelu' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir neu adborth pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad, a allent godi eu llaw (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau y codwyd pob dadl ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er resymau'r recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

C85 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C86 CEISIADAU AM BENODIAD AR GYFER SWYDDI GWAG LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL PRESENNOL (CYF) -

Ar ôl ystyried cofnodion Panel Cynghori Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2022

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr apwyntiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r ysgolion fel y nodir isod:

Ysgol	Nifer o Swyddi Gwag	Penodiad
Ysgol Gynradd Tregatwg	1	Cynghorydd C. Iannucci
Ysgol Gynradd Cogan	1	A. Eardley
Ysgol Gyfun y Bont-faen	1	Cynghorydd C. Champion
Ysgol Gynradd Dinas Powys	1	Y Cynghorydd A. Asbrey
Ysgol Gynradd Fairfield	1	J. Evans
Ysgol Gynradd Gladstone	1	Y Cynghorydd P. Drake
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô	1	J. Davies
Ysgol Gynradd High Street	2	Y Cynghorydd N. Marshallsea ac A. McMath
Ysgol Gynradd Holltwn	1	L Speight
Ysgol Gynradd Parc Jenner	1	J. Hughes
Ysgol Gynradd Llanfair	1	Y Cynghorydd R. Fisher
Llanilltud Fawr	1	Y Cynghorydd J. Lynch-Wilson
Ysgol Gynradd Palmerston	2	N. Herbert ac S. Lloyd
Ysgol Gynradd Llanbedr y Fro'r Eglwys yng Nghymru	1	L. James
Ysgol Gynradd y Rhws	2	J. Green a'r Cynghorydd W. Hennessy
Ysgol Gynradd Sain Tathan	2	Y Cynghorydd S. Haines ac A. Little
Ysgol Gyfun Sant Cyres	1	M. Lewis
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen	1	G. Chivers
Ysgol Gynradd Illtud Sant	1	C Hill
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	2	G. Kemp ac L. Lambourne
Ysgol Gynradd Sili	2	A. Eardley a C. Hill
Ysgol Gynradd y Bont-faen	1	Cynghorydd C. Champion
Ysgol Dewi Sant	1	G. Wilkie
Ysgol Gwaun y Nant	2	Glenna Griffiths a Gwynne Griffiths
Ysgol Iolo Morgannwg	1	C. Williams
Ysgol Sant Curig	2	G. Griffiths ac M. Thomas
Ysgol y Deri	1	D. Jackson

(2) CAIFF EI NODI, lle nad oedd ymgeiswyr, a oedd wedi nodi y byddent yn hapus i gael eu penodi i ddau Gorff Llywodraethu, am ymgymryd â'r penodiadau, gohiriwyd y swyddi gwag i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Panel.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1a2) Ar ôl ystyried argymhellion y Panel ac i gytuno ar benodiadau i Gyrrff Llywodraethol yr ysgolion uchod, gan roi sylw i'r ceisiadau a gafwyd ac er mwyn gallu hysbysebu'r penodiadau gwag fel y bo'n briodol.

C87 CABINET PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2022 fel y'i ceir o fewn yr agenda.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2022 yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

C88 RHAGLEN WAITH CHWARTEROL Y CABINET – GORFFENNAF I MEDI 2022 A HYDREF I RAGFYR 2022 (AG/BA) (CRAFFU – DIM) -

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ac unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r diweddariad cynnydd ar gyfer y chwarter Gorffennaf i fis Medi 2022, a chymeradwyaeth y Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet diwygiedig o fis Hydref i fis Rhagfyr 2022.

Dywedodd yr Arweinydd oherwydd cyfnod galaru'r diweddar Frenhines Elizabeth II bod adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol y cyfeirir ato yn Atodiad 1 wedi'i ohirio o fis Medi i'r cyfarfod hwn. Wrth gyfeirio at Atodiad 2, cynghorodd yr Arweinydd fod yr adroddiad cynnydd o ran darparu Prosiect Sero a drefnwyd ar gyfer cyfarfod Cabinet ym mis Hydref wedi'i ohirio, a chynigiwyd bellach i gael ei adrodd i gyfarfod Cabinet ym mis Ionawr 2023 o ganlyniad i wybodaeth a sylwadau ychwanegol a wnaed yn dilyn ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu, a oedd i'w hystyried.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) I GYTUNO Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet - mis Gorffennaf i fis Medi 2021 sydd yn Atodiad 2 yr adroddiad.

(2) I GYMERADWYO Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet - mis Gorffennaf i fis Medi 2021 sydd yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Monitro cynnydd.

(2) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Hydref i Ragfyr 2022.

C89 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 AWST 2022 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –

Roedd yr adroddiad yn cynghori'r Cabinet am y cynnydd sy'n ymwneud â gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Awst, 2022.

Byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2022/23 yn parhau'n heriol i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19. Roedd cronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer ymateb i Covid gwerth £1.249m wedi'i sefydlu yn ystod 2021/22 i helpu i ymateb i rai o'r pwysau hynny yn 2022/23.

Roedd pwysau a ddaeth i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau sefydlog ynni, y cynnig dyfarniad cyflog diweddar, chwyddiant cyffredinol yn enwedig mewn meysydd fel trafniadaeth ysgol a chostau byw a phwysau staffio. Roedd chwyddiant a phwysau galw yn cael eu profi ar draws gwasanaethau a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Ar hyn o bryd, roedd sefyllfa gyffredinol gytbwys gyda'r pwysau'n cael eu bodloni o danwariant ar y Gyllideb Bolisi a rhywfaint o dynnu arian wrth gefn gwasanaethau.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500k wedi'i bennu ar gyfer y flwyddyn ac roedd gwasanaethau wrthi'n gweithio i fwrw eu targedau. Roedd rhai materion o hyd mewn perthynas â thargedau arbedion nas bwriwyd o flynyddoedd blaenorol.

Roedd amrywiadau anffafriol yn cael eu rhagamcanu ar gyfer rhai gwasanaethau eleni a byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i ddatrys y materion hynny yn y byrdymor.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn ddarlun cymhleth a bod llawer wedi newid ers gosod y gyllideb ym mis Mawrth 2022, ond y byddai adrodd a monitro yn parhau i ddigwydd ac yn cael ei ystyried fel rhan o'r cylch gosod cyllidebau.

Nid oedd yr argymhelliad yn yr adroddiad y dylid cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau bellach yn ofynnol gan fod yr adroddiad ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwnnw ar hyn o bryd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) NODI'R sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) NODI'R trefniadau i wrthbwysu'r gorwario sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23, fel sydd yn yr adroddiad.

No.

(3) NODI'R pwysau ychwanegol ynghylch costau o £2.840m ar ysgolion yn 22/23, y gallai fod angen eu bodloni o falansau ysgolion.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-3) Nodi'r cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C90 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 AWST 2022 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –

Roedd yr adroddiad yn cynghori'r Cabinet y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Awst, 2022 ac yn gofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf, a dangoswyd manylion y cynllun yn Atodiad 1.

Rhoddodd Atodiad 2 grynodedb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yn y Cyngor ar 7 Mawrth, 2022 i 31 Awst, 2022, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a blynyddoedd y dyfodol.

Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, allai olygu bod angen ail-drefnu neu ail-dendro cynlluniau, gan arwain at oedi i brosiectau. Roedd swyddogion y prosiect hefyd yn adrodd amseroedd arweiniol hir ar ddarparu deunyddiau a phrinder sgiliau mewn rhai meysydd.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r Rhaglen gymeradwy bresennol o £119m ond roedd yn bwysig nodi nad oedd hyn yn debygol o gael ei gyflwyno a gofynnwyd am lithriad o £25.686m. Byddai cynlluniau'n parhau i gael eu monitro'n agos fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd gyda rheolwyr a noddwyr y prosiect. Byddai llithriadau pellach yn cael eu hadrodd yn Chwarter 3.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i gynghori'r Cabinet am gamgymeriad teipograffig ar dudalen 3 o'r adroddiad o dan y pwynt bwled ar gyfer Rhaglen Gwella Tai 2022/23 gan gynghori bod y geiriau "Cyfraniad Refeniw Gwasanaethau" ar goll o ddiwedd y frawddeg.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) NODI'R cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- (2) CYFEIRIO'R adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
- (3) NODI'R defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad.

(4) NODI'R defnydd o Bwerau Brys fel y manylir yn yr Atodiad sydd ynghlwm â'r adroddiad.

(5) CYMERADWYO'R newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod:

- Ysgol Gynradd Saint-y-brid - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn o £11 mil yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w ariannu gan gyfraniad o gyllideb referniw'r Ysgol.
- Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Band B – Ail-broffilio a chynyddu'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu fel y gofynnwyd amdano yn y tabl ym mharagraff 2.15.
- Cyfuno cynllun Cam 2 Adnewyddu Toeau Fflat Ysgol Gynradd y Bont Faen â chynllun Cam 3 Adnewyddu Toeau Fflat Ysgol Gynradd y Bont Faen/cynllun atgyweirio Ffenestri a Chladin o fewn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Cynllun Awyru Sant Richard Gwyn – Trosglwyddo £2 mil o'r cynllun gwella Awyru mewn Lleoliadau Addysg i gynllun Awyru Sant Richard Gwyn.
- Ysgol Gynradd Llanfair Carbon Sero – Dwyn ymlaen £240 mil i Raglen Gyfalaf 2023/24 er mwyn adlewyrchu'r proffil diwygiedig o gyflawni'r cynllun.
- Cyrtiau Tennis Romilly – Lleihau'r gyllideb hon gan £8 mil yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn unol â gwariant grant gwirioneddol.
- Gwelliannau Priffyrdd Gwasanaethau Cymdogaeth – Cyfuno'r Cynllun Gwella Priffyrdd Gwasanaethau Cymdogaeth â chynllun Ail-wynebu Priffyrdd yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Grant Chwaraeon Cymru - Trosglwyddo £24 mil o gynllun Canolfan Gymunedol a Hamdden Gwasanaethau Cymdogaeth i gynllun Grant Chwaraeon Cymru yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Adnewyddu Pier Penarth – Trosglwyddo £20 mil o Gyfleusterau a Seilwaith y Glannau gan gynnwys Cynllun Gwaith Strwythurol y Pier i gynllun Adnewyddu Pier Penarth yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Rhaglen Gwella Tai 2022/23 – Adnewyddiad 7 St Pauls Avenue - Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, gyda chyllideb o £315 mil i'w ariannu o drosglwyddiad mewnol o £177 mil o'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) (£124 mil CRT Mewnol a £53 mil o gyllid Gwaith Brys CRT) a Chyfraniad £138 mil o Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gwaith CRT Mewnol - Dwyn ymlaen £830 mil i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Adeiladau CRT Newydd - Dwyn ymlaen £6.344 miliwn i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24
- • Gwaith Allanol CRT - Dwyn ymlaen £1.775m i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- • Cynlluniau Unigol CRT - Dwyn ymlaen £2.1m i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Rhannau CRT Cyffredin - Dwyn ymlaen £2m i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.

No.

- Gwaith Amgylcheddol - Dwyn ymlaen £1.2m i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Effeithlonrwydd Ynni - Dwyn ymlaen £870 mil i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Rhaglen Amnewid Cerbydau – Dwyn ymlaen £1.384m i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Ystâd Fasnachu'r Iwerydd – Parcio Fflyd Gweithrediadau – Dwyn ymlaen £250 mil i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) Newydd - Dwyn ymlaen £1.605m i mewn i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Ad-daliad Goodshed i Lywodraeth Cymru - Cynyddu'r cynllun presennol yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o £6 mil, i'w ariannu o dderbynebau cyfalaf.
- Rhaglen Waith Cosmeston - Dwyn ymlaen £120 mil i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- APRhA Parciau Gwledig – Dwyn ymlaen £200 mil i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- BSC2 - Dwyn ymlaen £589 mil i mewn i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl/Grantiau Cyfleuster Ychwanegol - ailbroffilio'r gyllideb fel y nodir ym mharagraff 2.39.
- Parciau Gwledig fel Cysylltwyr Cymdeithasol ac Economaidd – Cynyddu'r cynllun o £10 mil, i'w ariannu gan gyfraniad refeniw o gyllideb y Parciau Gwledig.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-4) I roi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(5) Galluogi cynlluniau i fynd rhagddynt yn y blynyddoedd ariannol presennol a rhai'r dyfodol.

C91 STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2023/24 A CHYNYGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2023/24 I 2027/28 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth ar gyfer Cynigion y Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol ar gyfer 2023/24 i 2027/28, fel y gellir eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu ar gyfer ymgynghori a nodi'r Strategaeth Gyfalaf Ddrafft i Aelodau'r Cabinet ei hystyried.

Roedd yr adroddiad yn darparu Strategaeth Gyfalaf Ddrafft y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1. Darparodd y Strategaeth Gyfalaf fframwaith a oedd yn amlinellu sut y cyfrannodd gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys at ddarparu amcanion corfforaethol, ynghyd â throsolwg o sut y rheolwyd y risg gysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi i'r Aelodau'r Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd gyfredol ar gyfer y cyfnod 2023/24 i 2027/28 a'r Bidiau Cyfalaf a gyflwynwyd ar

No.

gyfer y cyfnod yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 i'w hadolygu gan y Cabinet ac i'w cyfeirio at y Pwyllgor Craffu. Pwyllgorau ar gyfer ymgynghori.

Cyfanswm gwerth y cynlluniau cyfalaf dros y pum mlynedd nesaf yw £230.211m. Roedd hyn yn cynnwys £39.847 miliwn ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B a £137.456 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gwella Tai.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor Llawn benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y Strategaeth Gyfalaf Ddrafft 2023/24 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD y Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol ar gyfer 2023/24 i 2027/28 a Ceisiadau Cyfalaf yn cael eu hadolygu a'u cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad i'r holl Bwyllgorau Craffu.
- (3) BOD unrhyw argymhellion o Bwyllgorau Craffu'n cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, er mwyn anfon eu sylwadau at y Cabinet.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn ymgynghori ag Aelodau ar y Ceisiadau Cyfalaf 'r Rhaglen Cyfalaf ar gyfer 2023/24 i 2027/28.
- (3) Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am sylwadau'r Pwyllgorau Craffu cyn gwneud cynnig ar Raglen Gyfalaf 2022/23.

C92 STRATEGAETH ARIANNOL 2022/23 AC ADNEWYDDU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -

Pwrpas yr adroddiad oedd adolygu'r pwysau ariannol dros y tymor canolig a sefydlu strategaeth ar gyfer cyflawni cyllideb 2023/24 a chyllid cynaliadwy dros y tymor canolig.

Fe wnaeth yr adroddiad adnewyddu rhagdybiaethau Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2021 a nodi'r Strategaeth Ariannol a'r broses ar gyfer cymeradwyo Cyllideb 2023/24 a'r CATC yn y Cyngor ym mis Mawrth 2023.

No.

Cytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Corfforaethol newydd - 'Cydweithio ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair' yn 2020 ac ar hyn o bryd roedd wrthi'n datblygu Cynllun Datblygu Blynyddol 2023/24 a fydd yn alinio â'r gwaith ar y gyllideb.

Byddai'r Strategaeth Ariannol yn canolbwyntio ar sicrhau y byddai adnoddau'r Cyngor yn cael eu targedu er mwyn cyflawni amcanion y Cyngor, ac yn ystod y cyfnod heriol hwn sicrhau bod gwasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn cael eu cynnal.

Roedd bwlch ariannu sylweddol yn 2023/24 ac ar draws y tymor canolig. Rhagwelwyd y bwlch ar gyfer 2023/24 fel £28.190m. Rhagwelwyd pwysau cost o £38.108m ond cyllid tebygol o ond £9.918m ychwanegol yn dod drwodd o grant Llywodraeth Cymru a'r Dreth Gyngor.

Y gyrrwr cost allweddol oedd chwyddiant gyda £21.659m o bwysau yn dod drwodd ar ddyfarniadau cyflog, costau ynni, contractau gofal a thrafnidiaeth. Ar ben hyn roedd y pwysau demograffig parhaus yn dod drwodd gyda nifer cynyddol o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a phoblogaeth sy'n heneiddio.

Cyhoeddwyd setliad tair blynedd ym mis Mawrth 2022 a chynnydd dangosol mewn Cyllid Allanol Cyfun (CAC) o 3.5% a 2.4% ar gyfer 2023/24 a 2024/25 yn y drefn honno. Ar hyn o bryd roedd arwyddion yn awgrymu na ddylid disgwyl setliad gwell ar gyfer 2023/24. Doedd dim disgwyl i'r setliad gael ei gyhoeddi tan ddiwedd Rhagfyr.

Tybiwyd bod y Dreth Gyngor yn cynyddu gan 3.9% ond roedd hyn ar gyfer dibenion cynllunio'n unig, a byddai'n destun penderfyniad polisi yn ddiweddarach yn y broses.

Roedd gofyn i Bwyllgorau Craffu adolygu'r Strategaeth Ariannol a'r ariannu a'r rhagdybiaethau o ran costau ac i adrodd unrhyw safbwyntiau yn ôl i'r Cabinet.

Byddai swyddogion yn adolygu'r pwysau costau ar draws yr hydref. Roedd elfen fuddsoddi i'r pwysau a oedd yn cynrychioli dymuniad i barhau i ddarparu gwasanaethau gwell ar draws ystod o feysydd. Roedd hyn yn amlwg yn parhau'n ddewis i'r sefydliad ond, mewn cyferbyniad, ni fyddai modd osgoi'r chwyddiant a'r pwysau demograffig i raddau helaeth.

Byddai gwasanaethau yn cyflwyno cynigion arbedion ar draws mis Hydref a Thachwedd yn erbyn fframwaith y cytunwyd arno fel y disgrifir yn yr adroddiad. Byddai'r rhain yn destun her fewnol yng nghanol/diwedd mis Tachwedd.

Byddai cyllideb ar gyfer ymgynghori yn dod ymlaen ym mis Ionawr 2023, a fyddai hefyd yn cynnwys rhai arbedion ar gyfer cytundeb cynnar o ystyried yr heriau ariannol roedd y Cyngor yn eu hwynebu.

Byddai cyllideb gytbwys i'w chymeradwyo yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth 2023.

No.

Fe wnaeth y Cyngorydd Williams gydnabod y materion sy'n wynebu'r Awdurdod a gofynnodd i'r Pwyllgorau Craffu, wrth ystyried gwybodaeth, i fod yn rhagweithiol drwy'r broses o osod y Gyllideb er mwyn i'r Cyngor wneud penderfyniadau cyllidebol cytbwys ac ystyriol yn y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2023.

Dyweddodd y Cyngorydd Sivagnanam fod yr Awdurdod wedi llwyddo i gynnal a darparu gwasanaethau drwy gydol llymder i gefnogi trigolion Bro Morgannwg, ond ei bod yn cydnabod yr hinsawdd ariannol bresennol fel her barhaus y mae angen ei rheoli'n adeiladol.

Dyweddodd yr Arweinydd bod Arweinwyr Awdurdodau Lleol wedi cael trywydd clir i gyfathrebu â Llywodraeth Cymru ers y pandemig a bod cyfarfodydd cyllidebol mwy aml gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid cysylltiedig yn digwydd ar hyn o bryd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor Llawn benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) NODI'R sefyllfa ariannol heriol y mae'r Cyngor yn ei wynebu, gyda bwlch ariannu o £28.190m yn 2023/24 a £49.830m ar draws y tymor canolig.
- (2) BOD y Cabinet yn lobio Llywodraeth Cymru dros setliad priodol yn wyneb y pwysau chwyddiant digynsail sy'n cael eu profi, ac awdurdodi Swyddogion y Cyngor i wneud yr un peth drwy rwydweithiau priodol.
- (3) I OFYN i swyddogion adolygu'r pwysau costau a dod â chynigion arbedion yn ôl i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb, er mwyn i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i osod cyllideb gytbwys ym mis Mawrth 2023.
- (4) BOD yr adroddiad a'r atodiadau yn cael eu cyfeirio at holl Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i Bwyllgorau adolygu'r Strategaeth Ariannol a'r rhagdybiaethau a wnaed ar gostau a chyllid yn ystod adnewyddu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ac i sylwadau gael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried.
- (5) NODI bod adroddiad pellach ar gyllideb y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Ni ellid gorbwysleisio'r heriau ar hyn o bryd ac ni ellid lliniaru llawer, byddai'r setliad gorau posibl yn hanfodol er mwyn osgoi gostyngiadau yn y ddarpariaeth gwasanaethau.
- (3) Roedd nifer o strategaethau ar gyfer mantoli'r gyllideb, ar wahân i ddenu mwy o gyllid a chyflawni arbedion, a byddai hyn yn cynnwys rheoli costau parhaus.

No.

(4) Roedd y Cyngor yn agored i adrodd ariannol clir a thryloyw a lefel briodol o her i reoli ei gyllid. Un elfen allweddol o'r broses her oedd drwy swyddogaeth craffu'r Cyngor.

(5) Roedd gosod y gyllideb yn broses hir ac roedd yn bwysig dod â diweddariadau rheolaidd yn ôl i Aelodau.

C93 ADRODDIAD AR SEFYDLOGRHYDD Y FARCHNAD CAERDYDD A BRO MORGANNWG 2022 (GCI) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -

Pwrpas yr adroddiad oedd cymeradwyo Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Caerdydd a Bro Morgannwg 2022.

Roedd adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi a chyhoeddi adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd. Hwn oedd yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.

Roedd angen darllen yr Adroddiad ochr yn ochr ag Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg ac Asesiad Lles Bro Morgannwg i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth a gallu'r farchnad i fodloni'r anghenion hynny.

Cynhaliwyd yr ASF rhwng mis Hydref 2021 a mis Gorffennaf 2022. Defnyddiwyd yr ymgysylltu pwrpasol a wnaed yn ystod datblygu Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn ogystal â data ac adroddiadau presennol i lywio'r ASF, ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu pwrpasol ar ffurf grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol a darparwyr.

Roedd gwelliannau wedi'u gwneud mewn gwasanaethau gofal a chymorth ar draws pob grŵp poblogaeth ers Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn 2017, er gwaethaf heriau COVID-19. Roedd COVID-19 wedi cael nifer o effeithiau, gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig iechyd meddwl, a newid modelau darparu ar gyfer llawer o wasanaethau. Fodd bynnag, lle'r oedd fwyaf priodol, roedd gwasanaethau'n dychwelyd i'w modelau darparu cyn COVID-19. Byddai'r effaith y tymor hwy ar anghenion gofal a chymorth poblogaeth Bro Morgannwg, a sefydlogrwydd y farchnad yn gofyn am fonitro'n barhaus er mwyn sicrhau digonolrwydd i'r farchnad.

Bu'r Pwyllgor Craffu Byw a Gofal Cymdeithasol Iechyd yn ystyried Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ar 6 Medi a gofynnwyd am fwy o fanylion ynghylch y mecanweithiau gofynnol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Byddai angen i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ystyried hyn gyda phartneriaid ac unrhyw ofynion gan Lywodraeth Cymru maes o law.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor Llawn benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD cynnwys Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn sicrhau bod gan Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad gymeradwyaeth cyn iddo gael ei ystyried yn y Cyngor Llawn.
- (2) Er mwyn sicrhau bod Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn cael ei ystyried gan yr holl Aelodau.

C94 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2021/2022 (YCCGR) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) –

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol am y Trydydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a oedd yn asesu perfformiad y polisïau wrth gyflawni amcanion integredig y Cynllun a oedd wedi ymgorffori datblygu cynaliadwy ac Asesiad Amgylcheddol Strategol gan roi sylw i'r Fframwaith Monitro a nodir yn y CDLI ac y cytunwyd arno gan yr Arolygydd fel rhan o'r Archwiliad CDLI ac a fabwysiadwyd o ganlyniad gan y Cyngor ar 28 Mehefin, 2017.

Dilynodd fformat yr AMB y fformat awgrymedig a nodir yn y Cynlluniau Datblygu diweddaraf Manual Edition 3 (Mawrth 2020). Roedd yn cynnwys dangosyddion monitro craidd a lleol a defnyddiwyd system sgorio 'goleuadau traffig' fel cymorth gweledol i fonitro effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun ac i roi trosolwg cyflym o berfformiad polisi.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyflawniadau polisi allweddol hyd yma ac yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r targedau monitro perthnasol wedi'u cyrraedd. Tynnodd sylw at y dangosyddion lle roedd angen ymchwil / ymchwiliad pellach.

Yn gyffredinol, roedd AMB 2019/2020 yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran gweithredu'r rhan fwyaf o bolisïau'r Cynllun a bod y strategaeth gyffredinol yn parhau i fod yn gadarn. Yn unol â hynny, argymhellwyd y dylid cyflwyno'r trydydd AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2022 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â Rheoliad CDLI 37. Yn ogystal, fe wnaeth yr AMB gydnabod bod y Cyngor wedi dechrau gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol newydd (CDLI), yn unol â Rheoliad CDLI 41.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) CYMERADWYO'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol am y Trydydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) (yn amodol ar ystyried unrhyw newidiadau a argymhellir gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2022 ac i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- (2) BOD AMB y CDLI yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried. Os yw'r Pwyllgor Craffu yn penderfynu derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu (CDLI) Lleol, byddai'r Cabinet yn ystyried AMB y CDLI fel y cytunwyd arno, a gellid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2022.
- (3) BOD yr awdurdod dirprwyedig hwnnw yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Lle, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio, er mwyn gwneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen, cyn eu cyhoeddi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cydymffurfio â Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.
- (2) Sicrhau craffu priodol ar yr adroddiad.
- (3) Gwneud newidiadau teipograffyddol neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet.

C95 YMGYNGHORIAD DWR CYMUR WELSH WATER AR Y CYNLLUN RHEOLI DRAENIO A DŴR GWASTRAFF (DWMP) (YCCGR) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer ymateb ledled y Cyngor i ymgynghoriad Dŵr Cymru ar eu Cynllun Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff (CRhDDG) i Gymru.

Cynllun 25 mlynedd oedd y CRhDDG gydag adolygiadau i'w cynnal bob 5 mlynedd. Bwriad Dŵr Cymru oedd cyhoeddi cylch cyntaf y cynllun hwn ar ddiwedd mis Mawrth 2023, ac roedden nhw'n gofyn am sylwadau fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ystyriodd y Cynllun sut roedd Dŵr Cymru yn bwriadu rheoli heriau a ddaeth yn sgil twf yn y boblogaeth yn y dyfodol, ymgripiad trefol a newid yn yr hinsawdd. Roedd y Cynllun yn nodi dull a ffefrir gan Dŵr Cymru, er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl y gallent eu darparu ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd ar yr un pryd. Cynigiodd y Cynllun y byddai Dŵr Cymru yn canolbwyntio i ddechrau ar y llefydd

No.

gyda'r lefelau gwaethaf o lifogydd carthffosydd a'r sensitifrwydd amgylcheddol mwyaf.

Roedd y ddogfen Ymgynghori yn cynnwys tua 30 o gwestiynau, y rhan fwyaf ohonynt mewn fformat caeedig, sef math ie / na. Roedd swyddogion wedi ymdrechu i ateb cymaint o gwestiynau â phosib, er bod rhai cwestiynau ddim yn gwbl berthnasol gan eu bod yn cael eu cyfeirio ar aelwydydd. Am o leiaf un cwestiwn, roedd angen mwy o fanylion nag yr oedd modd ei ddarparu o fewn dyluniad a chynllun yr holiadur, ac am y rheswm hwn awgrymwyd bod llythyr atodol o ymateb yn cael ei roi i'r holiadur yn enw Arweinydd y Cyngor. Yn ogystal, byddai Swyddogion yn ceisio cyfarfodydd gyda swyddogion Dŵr Cymru i drafod, yn arbennig, eu cynlluniau i leihau neu ddileu gollyngiadau carthion heb eu trin i'n moroedd, afonydd ac amgylcheddau tir lleol yn y dyfodol.

Dylid nodi nad oedd Dŵr Cymru wedi nodi'r angen am gynlluniau gwella ychwanegol ym Mro Morgannwg yn y Cynllun.

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad oedd 7 Hydref, 2022 ac yn anffodus roedd hyn wedi atal ystyriaeth bellach o'r ymatebion gan Bwyllgorau Craffu, felly gofynnwyd am gytuno ar ddefnydd o Weithdrefn Frys y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at baragraff 1.4 yr Adroddiad oedd yn trafod yr heriau tymor hir a oedd yn wynebu Dŵr Cymru a'r Awdurdod ym Mro Morgannwg, yr oedd angen eu hasesu mewn partneriaeth.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) I GYTUNO ar gynnwys yr adroddiad hwn, ynghyd â'r ymatebion drafft i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1, a'u cyflwyno i Dŵr Cymru

(2) I GYTUNO ar gynnwys y llythyr ymateb atodol sydd ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad, i'w gyflwyno i Dŵr Cymru.

(3) I GYTUNO i anfon y llythyr eglurhaol at Dŵr Cymru a bod Swyddogion yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Dŵr Cymru er mwyn annog deialog parhaus ynghylch rheoli dŵr gwastraff a diogelu'r amgylchedd yn y dyfodol.

(3) BOD y weithdrefn benderfynu frys, fel y nodir yn adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei arfer mewn perthynas â Phenderfyniadau (1) – (3) uchod.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I alluogi'r Cyngor i ymateb i'r ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff gan Dŵr Cymru.

No.

(2) Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael cyfle i fynegi barn i Dŵr Cymru mewn perthynas â'r bygythiad o ollyngiadau carthion ar amgylcheddau tir a dŵr ym Mro Morgannwg.

(3) Er mwyn cynorthwyo wrth sicrhau bod buddiannau parhaus y Cyngor o ran lleihau ac, ar ryw adeg, dileu gollyngiadau carthion i'r amgylchedd lleol yn cael eu hystyried orau.

(4) Er mwyn galluogi ymatebion i'r ymgynghoriad i gael eu dychwelyd i Dŵr Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 7 Hydref, 2022.